

Gwybodaeth i Rieni a Gwarcheidwaid am Fudd-Daliadau Addysg

Awst 2016



Prydau Ysgol am Ddim
Grantiau Gwisg Ysgol

Cynnwys

Tudalen

1. Beth yw'r meini prawf ar gyfer derbyn prydau ysgol am ddim? 3
2. Ydy fy mhlant i yn gallu cael prydau ysgol am ddim os ydw i'n hawlio Credyd Treth Gwaith a bod fy incwm yn llai na £16,190? 4
3. Sut ydw i'n gwneud cais am Brydau Ysgol am Ddim? 4
4. Ydy plant mewn ysgol feithrin yn gallu derbyn prydau ysgol am ddim? 5
5. Tan pryd ydw i'n gallu hawlio prydau ysgol am ddim? 5
6. Ydw i angen ffurflen ar wahân ar gyfer plant sy'n mynd i wahanol ysgolion? 6
7. Pa mor hir ddylai hi ei gymryd i awdurdodi'r ffurflen? 6
8. Ydy'r rhieni/gofalwyr yn cael gwybod a oes ganddynt hawl ai peidio? 6
9. Faint mae fy mhentyn yn cael ei wario bob dydd ar eu pryd? 6
10. Sut ydw i'n gwneud cais? 7

Grant Gwisg Ysgol 8

Pwy sy'n gallu cael y grant a faint mae'r disgyblion sydd â hawl i'w gael yn ei dderbyn? 8

I bwy ydw i'n gwneud cais am y grant? 8

Rydym yn falch o gael darparu'r llyfryn hwn mewn fformatau ac ieithoedd eraill



Cysylltwch â: Gwasanaeth Asesu

Refeniw a Budd-daliadau

E-bost:  hben.enquiries

@conwy.gov.uk

Ffôn:  01492 576491



1. Beth yw'r meini prawf ar gyfer derbyn prydau ysgol am ddim?

Dim ond pan fo ei riant/rhieni neu warcheidwad/ warcheidwaid yn derbyn o leiaf un o'r canlynol y mae disgybl yn gallu cael prydau ysgol am ddim:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith ar sail Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag Incwm
- Cymorth o dan Ran VI o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999
- Eifen Credyd Pensiwn Gwladol wedi'i warantu
- Credyd Treth Plant - pan fo cyfanswm yr incwm blynyddol yn is na £16,190
- Credyd Treth Gwaith yn ystod y pedair wythnos yn syth ar ôl diwedd eu cyflogaeth neu ar ôl iddynt ddechrau gweithio llai nag 16 awr yr wythnos
- Credyd Cynhwysol

Mae disgyblion sydd, yn eu hawl eu hunain, yn derbyn Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith ar sail Incwm/Credyd Cynhwysol, hefyd yn gallu cael prydau ysgol am ddim.

2. Ydy fy mhlant i yn gallu cael prydau ysgol am ddim os ydw i'n hawlio Credyd Treth Gwaith a bod fy incwm yn llai na £16,190?

Nac ydyn. Os ydych chi'n gallu hawlio Credydau Treth Gwaith, nid ydych yn gallu hawlio prydau ysgol am ddim, beth bynnag fo lefel eich incwm. Budd-daliadau i "deuluoedd sy'n gweithio" (16 awr yr wythnos neu fwy) ar incwm isel yw'r Credydau Treth Gwaith, er mwyn helpu â chost byw. Mae amgylchiadau'r teulu, gan gynnwys nifer y plant a lefel incwm yr aelwyd, yn cael eu hystyried wrth gyfrifo lefel yr hawl.

Dylech roi gwybod i Gyllid y Wlad cyn gynted â bod newid yn eich amgylchiadau, oherwydd gallai hynny effeithio ar eich hawl i gael Credyd Treth Gwaith a budd-daliadau eraill.

3. Sut ydw i'n gwneud cais am Brydau Ysgol am Ddim?

Gallwch gasglu ffurflen o ysgol eich plentyn, neu cysylltwch â **Gwasanaeth Asesu Refeniw a Budd-daliadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** ar y rhif ffôn 01492 576491, dydd Llun i ddydd Iau 8.45am-5.15pm a dydd Gwener 8.45am-4.45pm neu o un o'r cyfeiriadau isod os yw'n well gennych:

- **Swyddfa Budd-daliadau, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU**
- **Swyddfa Ardal Budd-daliadau, Neuadd y Dref, George Street, Llandudno, LL30 2ST**
- **Llawr Cyntaf, Llyfrgell Bae Colwyn, Ffordd Coetir Orllewinol, Bae Colwyn, LL29 7DH**

- **Swyddfa Ardal Budd-daliadau, Y Llyfrgell, Plas yn Dre, Llanrwst, LL26 ODF (Dydd Mawrth 10am–1pm)**

4. Ydy plant mewn ysgol feithrin yn gallu derbyn prydau ysgol am ddim?

Nid yw disgyblion rhan amser mewn dosbarthiadau meithrin yn gallu cael prydau ysgol am ddim. Mae disgyblion llawn amser mewn dosbarthiadau meithrin yn gallu hawlio prydau am ddim.

5. Tan pryd ydw i'n gallu hawlio prydau ysgol am ddim?

Cyhyd â'ch bod yn dal i fodloni'r meini prawf, byddwch yn dal i allu hawlio prydau ysgol am ddim. Os oes newid yn eich amgylchiadau personol, rhaid ichi roi gwybod i Wasanaeth Aseu Refeniw a Budd-daliadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU ar y rhif ffôn 01492 576491 ar unwaith.

Os nad fyddwch chi'n rhoi gwybod i Wasanaeth Aseu Refeniw a Budd-daliadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am newid yn eich amgylchiadau sy'n effeithio ar eich hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'ch bod yn dal i hawlio prydau am ddim, efallai y bydd yn rhaid i chi ad-dalu'r gost i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

6. Ydw i angen ffurflen ar wahân ar gyfer plant sy'n mynd i wahanol ysgolion?

Nac ydych. Dim ond un ffurflen sydd ei hangen ar gyfer yr holl blant sy'n mynd i unrhyw ysgol yn ardal yr Awdurdod Lleol.

Serch hynny, os yw eich plant yn mynd i ysgolion mewn ardaloedd gwahanol Awdurdodau Lleol, bydd angen gwneud cais i bob un o'r awdurdodau hynny.

7. Pa mor hir ddylai hi ei gymryd i awdurdodi'r ffurflen?

Nod y Gwasanaeth Asesu Refeniw a Budd-daliadau yw prosesu'r hawliad o fewn dim mwy na 5 diwrnod gwaith os darperir y dystiolaeth sydd angen.

8. Ydy'r rhieni/gofalwyr yn cael gwybod a oes ganddynt hawl ai peidio?

Unwaith y bydd hawliad wedi'i wneud bydd y rheini/gofalwyr yn cael gwybod beth yw canlyniad yr hawliad hwnnw.

9. Faint mae fy mhlentyn yn cael ei wario bob dydd ar eu pryd?

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn neilltuo £2.10 i Fabanod, £2.15 i blant lau a £2.30 i blant Uwchradd os oes system caffeteria ar gael (fel arall gall yr unigolyn ifanc ddewis dau gwrs o'r dewis sydd ar gael).

10. Sut ydw i'n gwneud cais?

Cewch wneud y cais cychwynnol ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ysgol; mae ffurflenni cais a rhagor o wybodaeth ar gael yn uniongyrchol gan yr ysgol berthnasol neu oddi wrth Wasanaeth Asesu Refeniw a Budd-daliadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (mae manylion ar Dudalen 4/5). Byddwn yn dal i wirio eich hawl i gael prydau ysgol am ddim drwy ein system electronig. Er hynny, os nad ydych bellach yn derbyn yr incwm cymwys (gweler eitem 1) rhaid i chi roi gwybod i'r Gwasanaeth Asesu Refeniw a Budd-daliadau (manylion ar Dudalen 4/5) heb oedi. Bydd angen i chi gyflwyno cais newydd os yw newid yn eich amgylchiadau'n golygu eich bod yn gymwys yn dilyn cyfnod o beidio bod yn gymwys.

Os ydych yn gwneud cais am Budd-dal Treth y Cyngor a bod gennych blant yn yr ysgol a'ch bod yn derbyn yr incwm cymwys i gael prydau ysgol am ddim (fel y nodir yn Eitem 1) nid oes angen i chi wneud hawliad ar wahân i gael prydau ysgol am ddim.



Grant Gwisg Ysgol

Pwy sy'n gallu cael y grant a faint mae'r disgyblion sydd â hawl i'w gael yn ei dderbyn?

Mae'r grant ar gael i ddisgyblion ym mlynnyddoedd 7-11. Mae'r un rheolau ar gyfer ei hawlio ag ar gyfer prydau ysgol am ddim (gweler Adran 1).

Ar gyfer disgyblion sy'n dechrau blwyddyn 7, y cymorth sydd ar gael fydd £105 (grant Llywodraeth Cymru). Bydd £28 o gymorth ar gael ar gyfer blynnyddoedd 8-11.

Os ydych yn gwneud cais am Budd-dal Treth y Cyngor a bod gennych blant yn yr ysgol a'ch bod yn derbyn yr incwm cymwys i gael prydau ysgol am ddim (fel y nodir yn Eitem 1) nid oes angen i chi wneud hawliad ar wahân i gael prydau ysgol am ddim.

I bwy ydw i'n gwneud cais am y grant?

Gallwch wneud y cais am grant gwisg ysgol drwy lenwi ffurflen gais sydd ar gael gan yr ysgol berthnasol neu gan Wasanaeth Asesu Refeniw a Budd-daliadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (manylion ar Dudalen 4/5).

www.conwy.gov.uk/refeniw